

Goblygiadau ariannol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Hydref 2025

1. Cyflwyniad

- 1.** Cafodd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)¹ (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm)², gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad Effaith), ei gyflwyno gan Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai (yr Ysgrifennydd Cabinet) ar 19 Mai 2025.
- 2.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y Bil yn:
 - Ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf;
 - ehangu cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig am adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymateb yn effeithiol;
 - blaenoriaethu'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.³
- 3.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 11 Mehefin 2025⁴, gan y canlynol:
 - Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai;
 - Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Cymru;
 - Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth Atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru.
- 4.** Gwnaeth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ymgymryd â'r gwaith o graffu ar bolisiau'r Bil.⁵
- 5.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil, hefyd, o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.⁶

¹ Llywodraeth Cymru, Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 3

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 11 Mehefin 2025

⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Goblygiadau ariannol y Bil

Costau presennol digartrefedd

6. Mae'r Asesiad o Effaith yn nodi bod digartrefedd wedi costio tua £275 miliwn i wasanaeth cyhoeddus Cymru yn 2023-24. Mae'n dweud bod hyn yn cyfateb i gyfartaledd o £20,000 fesul aelwyd sy'n profi digartrefedd, gyda bron i hanner y gost hon yn ymwneud â darparu llety dros dro. Aiff ymlaen i ddweud y canlynol:

*"Mae costau hefyd i'r sector cyhoeddus ehangach, gan fod pobl sy'n ddigartref yn fwy tebygol o ryngweithio ag iechyd, gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol na'r rhai nad ydynt yn ddigartref. Mae dadansoddiad Alma Economics yn amcangyfrif bod cost gynyddrannol digartrefedd i'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn £64m, neu £4,700 fesul aelwyd sy'n ddigartref."*⁷

7. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at ddadansoddiad gan Alma Economics, sy'n amcangyfrif "bod mynd yn ddigartref yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd sy'n cyfateb i werth ariannol o £12,200 y person, ac y gallai enillion a gollir fod yn werth tua £3,300". Mae'r Asesiad Effaith yn ychwanegu fel a ganlyn:

*"Mae hyn yn awgrymu cost bersonol fawr i unigolion o ganlyniad i fod yn ddigartref, sy'n cyfateb i fwy na £200m y flwyddyn ar gyfer y boblogaeth ddigartref. Amcangyfrifwyd bod digartrefedd yn 2023-24 wedi costio tua £485m i gymdeithas."*⁸

8. Heb gamau pellach, mae'r Asesiad Effaith yn awgrymu y rhagwelir y bydd cost digartrefedd yn y sector cyhoeddus yn codi ar gyfartaledd o dros dri y cant y flwyddyn, sy'n cynrychioli cynnydd o £275 miliwn yn 2023-24 i £383 miliwn mewn termau real erbyn 2033-34.⁹

9. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfartaledd pum mlynedd o ddata canlyniadau Stats Cymru. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 90

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 90

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 91

*"... it is important to note that the data is erratic over the last five years in particular, but this forecast is really broadly in wider research that suggests that homelessness is likely to increase over the next decade unless we shift the policy to address that. Because ... the system that we have at the moment is the most expensive system that we could have, and we know that the costs will increase in that way."*¹⁰

Tystiolaeth a rhagdybiaethau

10. Mae'r Asesiad Effaith wedi'i seilio, yn rhannol, ar waith Alma Economics, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024 i edrych ar gostau, manteision ac effeithiau. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi fel a ganlyn:

*"... oherwydd cyfyngiadau amser, fod dadansoddiad Alma Economics wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu'r Bil ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid."*¹¹

11. Fodd bynnag, dywedodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"What we asked Alma to help us with was creating a model that we could adjust over time, depending on how this Bill develops through scrutiny, how our thinking might change on particular costings. So, it's a reactive model that we can adjust over time."*¹²

12. Mae'r Asesiad Effaith yn tynnu sylw at gyfyngiadau data, gan gynnwys y canlynol:

- Ceir bylchau data o ran hynt pobl drwy'r system ddigartrefedd;
- Nid yw'r data ar lety dros dro yn mapio yn ôl y data canlyniadau statudol;
- Mae diffyg data o ansawdd hefyd wedi achosi heriau o ran cofnodi costau cysgu ar y stryd yn ddigonol.¹³

¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraffau 35-36

¹¹ [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83](#)

¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 57

¹³ [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 88](#)

13. Ceisiodd y Pwyllgor ddeall sut mae'r bylchau yn y data wedi effeithio ar gywirdeb goblygiadau ariannol amcangyfrifedig y Bil. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

*"... it has been tricky and we have used the best-quality evidence available to us at the time. We have prioritised official statistics and, again, high-quality published evidence, wherever we possibly could. Again, we have encountered areas where evidence is not available. So, when that has been the case, we've tried to triangulate the data with a range of sources. We've produced appropriate assumptions, which have been tested with key stakeholders, but the estimates that we have presented in the RIA are the most accurate estimates that we could produce, bearing in mind the data available to us."*¹⁴

Crynodeb o'r costau

14. Amcangyfrifir bod cyfanswm cost y Bil yn £325.8 miliwn dros y cyfnod asesu o 10 mlynedd. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- £310.6 miliwn mewn costau rheolaidd, gyda'r rhan fwyaf o'r costau'n syrthio ar awdurdodau lleol (£302.4 miliwn). Bydd y swm sy'n weddill yn syrthio ar Lywodraeth Cymru (£1.5 miliwn) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector cyhoeddus eangach (£6.6 miliwn);
- £15.3 miliwn mewn costau trosiannol sy'n syrthio ar Lywodraeth Cymru (£0.4 miliwn), awdurdodau lleol (£2.4 miliwn) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector cyhoeddus eangach (£12.5 miliwn).¹⁵

15. Wrth sôn am y buddsoddiad sydd ei angen i weithredu'r Bil, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at feysydd sylweddol o gostau ychwanegol mewn perthynas â chryfhau'r gwaith atal, gan ychwanegu fel a ganlyn:

"Benefit over time is the focus on prevention and that flow through the system, so that we're not pushing people, as the current system is, to crisis. We want to have that early intervention and prevention, so that flow through the system, and that will enable the redistribution of resources, resulting in higher levels of prevention, more efficient relief of homelessness,

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 67

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 82

alongside that reduction in reliance on temporary accommodation, which we know is very expensive, not just financially, but obviously as a human cost.”¹⁶

16. Dywedodd swyddog a oedd yno gyda'r Ysgrifennydd Cabinet mai'r bwriad fyddai dosbarthu unrhyw gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yn unol â fformiwla'r Grant Cynnal Refeniw.¹⁷

17. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'r canlynol:

“The assumptions behind some of the savings seem optimistic, not only in their scale but also in the timing of when they might be realised. While some of the data has been provided by councils, the information supplied did not always reflect the final proposals in the Bill and therefore may undermine elements of the assumptions made in the financial assessment. Councils would wish to ensure that the actual costs of implementation are closely monitored, and discussions held with Welsh Government if costs are exceeding the level of funding provided... It is crucial that Welsh Government commit to fully funding the financial implications of the Bill on an on-going basis”¹⁸

Crynodeb o fuddiannau

18. Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif manteision o £1.2 biliwn ar ôl y cyfnod pontio cychwynnol, gan gynnwys y canlynol:

- £645.7 miliwn o fuddion ariannol i awdurdodau lleol (£475 miliwn), y sector cyhoeddus eangach (£167 miliwn) ac i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (£3.7 miliwn);
- £549.6 miliwn mewn “manteision cymdeithasol”, y disgwylir iddynt gronni i'r unigolyn/aelwyd ar ffurf manteision iechyd (£432.9 miliwn) a manteision enillion (£116.7 miliwn).¹⁹

¹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 16

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 107

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83

19. O ran gwerth presennol, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd diwygiadau'n cynhyrchu £2 o fanteision am bob £1 a fuddsoddir. Os cynhwysir y manteision iechyd ac enillion anariannol, mae hyn yn cynyddu i £4 o fanteision o bob £1 a werir.²⁰

20. Pan ofynnwyd iddi pa mor realistig yw hi i'r newid sicrhau arbedion mor gynnar ag yr amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"We've put things in place already, we've had some more investment in the build-up to this Bill around local authorities as well, in terms of realigning their homelessness system in preparation for the Bill. We do think that there will be these benefits in terms of focusing very much on prevention at an early stage and that we will see the benefits within that in the time that we've set out through the RIA."*²¹

21. Aeth swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud y canlynol:

*"Where the prevention rate is at the moment, in the last year's worth of data, is around 58 per cent, 59 per cent. A 10 per cent increase will only take us back to where we were pre COVID, so, actually, we think that's entirely achievable with additional resource in prevention. We know local authorities can achieve those prevention rates because they've done it before, so we think the time scales set out in the RIA are reasonable."*²²

22. Er bod yr Asesiad Effaith yn asesu costau unigol pob un o adrannau perthnasol y Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull gwahanol o gyfrifo'r £1.2 biliwn o fanteision – gan ddarparu crynodeb o'r manteision cyffredinol ar draws y newid. Mae'r manteision amcangyfrifedig yn seiliedig ar y Bil yn cyflawni "gwelliant deg pwynt canrannol yn y cyfraddau atal a lleddfu digartrefedd diweddar".²³

²⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 92

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 29

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 34

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 83

23. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet na fu'n bosibl modelu'r manteision a ddeilliodd o bob diwygiad unigol, gan mai prin yw'r dystiolaeth ar effaith bosibl y diwygiadau unigol, neu enghreifftiau o ymyriadau tebyg.²⁴

24. Ar gais y Pwyllgor, rhannodd yr Ysgrifennydd Cabinet nodyn technegol ar y modelu a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan Alma Economics i ddatblygu dadansoddiad cost-budd y Bil. O ran y manteision amcangyfrifedig, roedd y nodyn yn dweud y canlynol:

*"... mae'r buddion yn seiliedig ar y pecyn cyffredinol o ddiwygiadau, gan roi sylw i'r newidiadau arwyddocaol i baramedrau allweddol sy'n arwain at ganlyniadau buddiol: mwy o atal, lliniaru digartrefedd mewn ffordd fwy effeithlon a llai'n cael eu rhyddhau am resymau eraill."*²⁵

Y 'senario graidd'

25. Yn seiliedig ar ddata'r ddwy flynedd lawn ddiwethaf, mae'r Asesiad Effaith yn tynnu sylw at gyfradd atal digartrefedd gyfredol o 58 y cant a chyfradd rhyddhad digartrefedd gyfredol o 59 y cant.²⁶

26. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi 'senario craidd' i "ddangos sut y gall y diwygiadau sicrhau gwerth am arian (h.y. mantais net) drwy wneud gwelliannau y gellir eu cyflawni o ran canlyniadau atal a lleddfu." Dyma'r senario graidd, sy'n cyfeirio at y gyfran o'r canlynol:

- Y bobl sy'n cael eu hatal rhag dod yn ddigartref yn cynyddu o 58 y cant i 68 y cant o ganlyniad i'r diwygiadau;
- y bobl ddigartref sy'n cael eu rhyddhau'n llwyddiannus o ddigartrefedd yn cynyddu o 59 y cant i 69 y cant o ganlyniad i'r diwygiadau.²⁷

27. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi y gellid adennill costau ar gyfradd is.²⁸

28. Yn seiliedig ar y senario graidd, mae'r Asesiad Effaith yn nodi fel a ganlyn:

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 30

²⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025

²⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

²⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

²⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 97

“... disgwylir i nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref yng Nghymru yn 2031-32, pan ddisgwylir i fanteision llawn y diwygiadau gael eu gwireddu, leihau o tua 18,000 i 14,000.”²⁹

29. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pa dystiolaeth a arweiniodd at y casgliad y bydd y newid yn gwella cyfraddau atal digartrefedd a rhyddhad digartrefedd o ystyried amrywioldeb y data. Esboniodd fod y cyfraddau atal digartrefedd a rhyddhad digartrefedd cyfredol a ddefnyddir fel y llinell sylfaen yn yr Asesiad Effaith yn seiliedig ar y ddwy flynedd lawn ddiwethaf o ddata, a chyfeiriodd at newid dadansoddiad, gan newid y paramedrau o ran costau a manteision er mwyn deall y pwynt adennill costau. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

“... we do believe that the 10 per cent is achievable. We've done it before. It would mark a return to rates ... prior to the COVID pandemic, when the prevention rate was around 67 per cent, and so that's an average taken between 2017-18 and 2019-20.”³⁰

30. O ran manteision iechyd, mae'r RIA yn dweud “mae dadansoddiad Alma Economics yn amcangyfrif y bydd y diwygiadau yn arwain at fwy na 700 o flynyddoedd o fywyd iach ychwanegol (0.16 blynedd y person) sy'n cyfateb i £53m mewn termau ariannol.”³¹

31. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cyfeirio at amcangyfrif gan Price Waterhouse Coopers “am bob £1 a fuddsoddir mewn datrysiadau i symud pobl yn uniongyrchol allan o ddigartrefedd, y cynhyrchir £2.80 mewn buddiannau”. Mae, hefyd, yn nodi'r pwysau presennol ar y GIG o ran capasiti a chadw staff, gan ddatgan fel a ganlyn:

“Mae posibilrwydd y bydd y diwygiadau yn creu effaith negyddol pwysau cynyddol ar wasanaethau ac adnoddau iechyd yn ystod y cyfnod pontio oherwydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan y sector tai a sectorau eraill.”³²

32. Mewn gohebiaeth ddiweddarach, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet enghraifft o'r modd y gallai'r newid effeithio ar wasanaethau iechyd, fel a ganlyn:

²⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 95

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraffau 42-43

³¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

³² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 205

“Bydd sawl darpariaeth yn y Bil, yn enwedig 'gofyn a gweithredu' a chydlynu achosion yn gofyn am newid y ffordd y mae unigolion sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd ac sydd hefyd angen gwasanaethau iechyd yn cael eu hadnabod. Mae'r RIA yn cyfri'r costau cyfle sy'n gysylltiedig â'r newid hwn (tudalen 128 a 135).”³³

33. Disgwylir, hefyd, y bydd £14 miliwn o enillion ychwanegol yn 2031-32 drwy gynyddu'r ddarpariaeth o lety sefydlog.³⁴

34. O ran cyraeddadwyedd y manteision hyn, mae'r Asesiad Effaith yn dweud bod y gwelliant gofynnol sy'n angenrheidiol er mwyn i gostau'r diwygiadau gwneud elw yn “isel ac gyflawnadwy iawn”. Nid yw ychwaith yn ei gwneud yn ofynnol dychwelyd i lefelau atal cyn y pandemig i sicrhau gwerth am arian.³⁵

Asesiad Fforddiadwyedd

35. Mae'r Asesiad Effaith yn cynnwys asesiad fforddiadwyedd a ddisgrifir fel “asesiad ariannol yn unig” a dim ond “costau o ran arian parod a manteision o ran rhyddhau arian parod sydd wedi'u cynnwys”. Mae'r costau a'r manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eangach, a nodwyd yn yr Asesiad Effaith, wedi'u tynnu o'r asesiad fforddiadwyedd, yn ogystal â chostau cyfleoedd.³⁶

36. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn nodi cyfanswm costau o £1.7 miliwn (neu £2 filiwn wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) i Lywodraeth Cymru a £304.8 miliwn (neu £366.3 miliwn wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) i awdurdodau lleol dros y cyfnod gwerthuso. Mae, hefyd, yn amcangyfrif buddion ariannol o £475 miliwn (neu £573.2 miliwn wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant) i awdurdodau lleol dros y cyfnod asesu.³⁷

37. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn dweud y canlynol:

“Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol yn ystod blynyddoedd cyntaf y cyfnod gweithredu. Y tu hwnt i'r pwynt hwn, disgwylir i'r manteision

³³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025

³⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 96

³⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 97

³⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 190

³⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 191-192

ariannol a gynhyrchir gan awdurdodau lleol fwy na gwrthbwysu'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.”³⁸

38. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn nodi y “disgwylir i'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fod yn gostau cyfle ac nid ydynt yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol”. Nid oes yr un o'r manteision eraill wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Fforddiadwyedd, er bod yr Asesiad Effaith yn cyfeirio at y manteision o £167 miliwn i'r sector cyhoeddus eangach, a £3.7 miliwn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel “manteision ariannol”.³⁹

39. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ba ffurf y bydd y manteision amcangyfrifedig hyn o £167 miliwn i'r sector cyhoeddus ehangach a £3.7 miliwn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu gwireddu. Mewn gohebiaeth ddilynol, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

“Nid yw RSLs yn rhan o'r asesiad fforddiadwyedd gan ei fod yn ymdrin â chyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn unig. Fodd bynnag, disgwylir i'r manteision i'r sector cyhoeddus ehangach ac RSLs fod yn fuddion ariannol. Yn achos y sector cyhoeddus ehangach, maent yn cynnwys costau wedi'u hosgoi i'r gwasanaethau ieuchyd a'r system cyfiawnder troseddol. Ar gyfer RSLs, mae'r buddion yn ymwneud â darparu llety sefydlog.”⁴⁰

Barn y Pwyllgor

40. Mae'r Pwyllgor yn nodi amcanion y Bil, a'i nod o wella'r sefyllfa o ran o atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwariant ataliol sy'n canolbwyntio ar leddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Rydym yn nodi, ymhellach, farn yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y buddsoddiad sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn yn galluogi modd o ailddosbarthu adnoddau, ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro drud.

41. Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu yr amcangyfrifir y bydd cost digartrefedd yn y sector cyhoeddus yn cynyddu tua thri y cant bob blwyddyn (rhwng 2023-24 a 2033-34) heb gamau pellach. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet o ran heriau cyfyngu data ac ystadegau sydd, yn ei hôl hi, wedi bod yn anghyson dros y pum mlynedd diwethaf. Er ein bod yn cydnabod barn yr Ysgrifennydd Cabinet, sef bod Llywodraeth Cymru wedi

³⁸ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol, tudalen 192

³⁹ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol, tudalen 83

⁴⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025

defnyddio'r dystiolaeth o'r ansawdd gorau sydd ar gael iddi, hoffem ddeall pa fodelu sydd wedi'i wneud i sefydlu cost digartrefedd yn y sector cyhoeddus mewn senarios eraill.

42. Mae'r Bil yn cynnig nifer sylweddol o ddiwygiadau sy'n cyfateb i gost amcangyfrifedig o £325.8 miliwn dros y cyfnod asesu o 10 mlynedd. Mae'r Asesiad Effaith, hefyd, yn amcangyfrif manteision ariannol o £645.7 miliwn (gyda disgwyl i fanteision ariannol fod yn fwy na chostau gweithredu o 2028-29 ymlaen) a manteision cymdeithasol o £549.6 miliwn (ar ffurf manteision iechyd o £432.9 miliwn a manteision enillion o £116.7 miliwn).

43. Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif costau unigol pob adran o'r Bil. Fodd bynnag, yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, nid oedd yn bosibl amcangyfrif y manteision a ddeilliai o'r Bil yn yr un modd oherwydd, yn ei hôl hi, mai prin yw'r dystiolaeth ar effaith bosibl y diwygiadau unigol, neu enghreifftiau o ymyriadau tebyg. Yn hytrach, mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif manteision y Bil yn ei gyfanrwydd, yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd yn cyflawni'r senario craidd o welliant o ddeg pwynt canran yng nghyfraddau atal a rhyddhad digartrefedd diweddar. Nid yw'r dull hwn o gymorth wrth ddadansoddi costau amcangyfrifedig elfennau unigol y Bil yn erbyn y manteision amcangyfrifedig. Er ein bod yn nodi mai barn yr Ysgrifennydd Cabinet yw bod y senario graidd yn gyraeddadwy, mae'n bwysig cydnabod yr ystod sylweddol o ansicrwydd ynghylch cyflwyno un amcangyfrif canolog ar gyfer canlyniadau atal a rhyddhad.

44. Nodwn fwriad Llywodraeth Cymru i "ddarparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol yn ystod blynyddoedd cyntaf y cyfnod gweithredu" gyda disgwyl i'r manteision ariannol "fwy na gwrthbwysu'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth" y tu hwnt i'r pwynt hwn. Gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet egluro beth y mae hi'n ei ystyried yn "flynyddoedd cyntaf y cyfnod gweithredu" at ddiben cyllid Llywodraeth Cymru. Yn y pen draw, ac yn unol â'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y Bil, rydym yn pryderu y gallai'r amserlenni ar gyfer cyflawni manteision fod yn rhy uchelgeisiol ac y bydd oedi wrth wireddu'r manteision ariannol yn effeithio ar gost cyflawni'r newidiadau yn y Bil, gan arwain at heriau ariannu i awdurdodau lleol.

45. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod rhywfaint o fuddsoddiad eisoes wedi'i wneud i helpu awdurdodau lleol i ail-alinio eu system digartrefedd wrth ragweld y Bil, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio. Clywsom, hefyd y bydd cyllid ychwanegol i gefnogi gweithrediad y Bil yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol drwy'r un fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion â'r Grant Cynnal Refeniw.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â chost digartrefedd yn y sector cyhoeddus gan ddangos yr ystod bosibl o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau, ar ôl Cam 2.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cymryd y camau a ganlyn:

- Cadarnhau'r hyn y mae hi'n ei ystyried yn flynyddoedd cyntaf y cyfnod gweithredu o ran darparu cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi awdurdodau lleol, a hefyd
- yn rhoi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol, pe bai diffygion cyllido yn codi o ganlyniad i fanteision ariannol nad ydynt yn cael eu gwireddu ar y cyflymder a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu'r canlynol:

- Dadansoddiad o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer y Bil, hyd yma, gan gynnwys y gweithgareddau a gyflawnwyd gyda'r cyllid hwn, a hefyd
- manylion pellach ynghylch sut, a phryd, y bydd cyllid ychwanegol i gefnogi gweithredu'r Bil yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i adlewyrchu eu hanghenion unigol.

3. Costau elfennau penodol o'r Bil

Rhan 1: Digartrefedd

Ystyr “o dan fygythiad o ddigartrefedd”

46. Ar hyn o bryd, rhaid i awdurdodau tai lleol “gymryd camau rhesymol i atal digartrefedd dros unrhyw geisydd cymwys sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod”. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi bod pwysau yn y system, llwythi achosion uchel a chyflwyniadau hwyr “yn golygu, yn aml, nad oes modd i awdurdodau tai lleol wneud y gwaith atal yr hoffent ei wneud”.⁴¹

47. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi costau o £1,716 (gan gynnwys costau staff) ar gyfer pob ymgeisydd sy'n gymwys i gael cymorth o dan y ddyletswydd atal digartrefedd bresennol. Mae'n nodi bod 8,772 o aelwydydd wedi cyflwyno cais am gymorth ataliol yn 2023-24, am gost amcangyfrifedig o £15.1 miliwn.⁴²

48. Mae'r Bil yn diwygio'r diffiniad o “dan fygythiad o ddigartrefedd” os yw'n debygol y bydd person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis, er mwyn rhoi mwy o amser i awdurdodau tai lleol atal digartrefedd. Er mwyn cyflawni'r budd hirdymor hwn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd “angen buddsoddiad cychwynnol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu ailbennu ffocws gwasanaethau”. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi fel a ganlyn:

“Ar y cyd â chynigion eraill yn y Bil ar atal ... nod y cynnig hwn yw creu'r amodau ar gyfer gweithgarwch gwell a mwy effeithiol i atal digartrefedd a chynyddu'r gyfradd atal gyffredinol.”⁴³

49. Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif cynnydd mewn achosion yn seiliedig ar y llwyth achosion presennol o 8,772. Ei amcangyfrif canolog yw cynnydd o 15 y cant neu 1,316 o achosion y flwyddyn. Yn seiliedig ar wybodaeth gan awdurdodau lleol am gost achos, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £2.3 miliwn y flwyddyn o 2027-28.⁴⁴

50. Disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet gynnydd o 15 y cant fel tybiaeth resymol sy'n seiliedig ar ragolygon sy'n dangos cynnydd cymedrol yn seiliedig ar arfer cyfredol. Esboniodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet fod cynnydd o 15 y cant yn

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 99

⁴² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 99

⁴³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 101

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 101

amcangyfrif rhesymol a oedd yn ceisio ystyried ceisio tynnu pobl i mewn i'r system yn gynharach, ond hefyd gan gydnabod y byddai rhai o'r bobl hynny wedi dod o hyd i'w ffordd i'r system ddigartrefedd yn y pen draw, ond yn ddiweddarach.⁴⁵

Cynlluniau atal, cymorth ac addasiadau

51. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol "gymryd camau rhesymol i helpu i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael i geisydd ei feddiannu" a, thrwy wneud hynny, "gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod". Er nad oes gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau tai lleol i roi Cynlluniau Tai Personol (fel y'u gelwir ar hyn o bryd) ar waith ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio cymorth digartrefedd, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo eu defnydd.⁴⁶

52. Mae'r Bil yn cryfhau'r iaith sy'n gysylltiedig â chamau rhesymol: "Mae'n rhaid i'r awdurdod helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw". Mae'r Bil, hefyd, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety i unrhyw un y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo.⁴⁷

53. Yn seiliedig ar ddata 2023-24, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd angen Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety ar 28,446 o aelwydydd, gyda'r cynllun hwnnw'n cymryd pedair awr i'w gwblhau ar gyfer pob ymgeisydd. Rhagwelir y bydd hyn yn gofyn am 64.7 o staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) ar gyfanswm cost o £3.1 miliwn.⁴⁸

54. Pan ofynnwyd iddi sut y disgwylir i awdurdodau lleol reoli'r llwyth achosion cynyddol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

"The RIA does recognise the additional costs and the capacity that's needed for this Bill, but I'm clear it's not about make do and mend. I don't expect local authorities to deliver the necessary changes without that additional resource. I'm clear that initial investment is very much required to refocus the homelessness system, as we have been doing over the last few

⁴⁵Y Pwyllgor Cyllid, Y Cofnod, 21 Mehefin 2023, paragraffau 79, 81 ac 84-86

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 103

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 104

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 108

years as well. And I think that is very much reflected in the RIA.”⁴⁹

55. Ychwanegodd y swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“... there are some local authorities in Wales who are already restructuring in anticipation of the Bill and the shift in focus on prevention—so, already looking at the structures. But the RIA doesn't assume local authorities will do that, as the Cabinet Secretary says. We've been really clear we've costed the additional ask through the Bill, and we've tried to capture everything in terms of the RIA that we think will be that additional requirement as a result of the changes to the system that will be required through the Bill.”⁵⁰

56. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r buddsoddiad cychwynnol hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda'r amod y byddai ariannu cyllidebau yn y dyfodol yn fater i lywodraethau'r dyfodol ei ystyried.⁵¹

57. Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd angen £5 miliwn ychwanegol y flwyddyn i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cynnig cymorth i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'w feddiannu gan yr ymgeisydd, drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw.⁵²

58. I amcangyfrif y gost hon, ystyriodd yr Ysgrifennydd Cabinet y cyllid presennol ar gyfer gwasanaethau dewisol digartrefedd ac atal, gan ddweud y canlynol:

“Ers y pandemig, rydym wedi darparu £5m i'r diben hwn. Mae'r cyllid hwn wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw eleni i gydnabod ei natur statudol. Mae'r amcangyfrif yn yr RIA felly yn rhagdybio dyblu'r cyllid ataliol presennol hwnnw.”⁵³

Dyletswydd awdurdod cyhoeddus i “ofyn a gweithredu”

59. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod pobl sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, “yn dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau cyhoeddus wrth iddynt geisio deall a rheoli eu sefyllfa o ran llety”. Er bod trefniadau anffurfiol yn bodoli, nid oes gofyniad i'r gwasanaethau hyn gyfeirio

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 92

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 105

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Y Cofnod, 11 Mehefin 2025, paragraffau 97 a 99

⁵² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 108

⁵³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025

unigolion i gael cymorth. Mae dadansoddiad gan Alma Economics yn amcangyfrif bod cost ychwanegol digartrefedd yn £64 miliwn i wasanaethau cyhoeddus ehangach y flwyddyn (£4,700 fesul achos digartref).⁵⁴

60. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru i "ofyn a gweithredu". Mae, hefyd, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus penodol gymryd y cam a ganlyn:

*"... roi gwybodaeth i'r person am y cymorth a all fod ar gael gan wasanaethau eraill, ac ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallai yn rhesymol eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau i helpu'r ceisydd i sicrhau neu gadw ei lety."*⁵⁵

61. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi cost untro o £66,860 i Lywodraeth Cymru, a gafwyd yn 2027-28, i gynhyrchu'r cynnig hyfforddi i baratoi gwasanaeth cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn tynnu sylw at "gost cyfle sylweddol yn gysylltiedig â hyfforddiant a chanllawiau" i awdurdodau cyhoeddus penodedig. Can ddefnyddio cyflogau cyfartalog a thybio y bydd yn cymryd 2 awr i gwblhau'r hyfforddiant ar draws 208,413 o staff, amcangyfrifir y bydd y gost yn £12.4 miliwn yn 2028-29.⁵⁶

62. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod swyddogion wedi ymgysylltu â phob corff cyhoeddus perthnasol datganoledig, a heb ei ddatganoli, mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, gan ddweud y canlynol:

*"Mae "gofyn a gweithredu" yn rhan o'n cynllun gweithredu canol tymor, er mwyn caniatáu amser ar gyfer y trafod a'r cynllunio hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn datblygu hyfforddiant, deunyddiau a methodoleg atgyfeirio a'r gofynion o ran data, ar y cyd â rhanddeiliaid."*⁵⁷

Adolygiadau

63. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i ddarparu hawliau ychwanegol i ofyn am adolygiad mewn rhai amgylchiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd creu hawliau ychwanegol i ofyn am adolygiad yn cynyddu nifer y ceisiadau am adolygiadau a wneir i awdurdodau lleol. Er mwyn amcangyfrif yr effaith, mae wedi tybio y gall 25 y cant o ymgeiswyr sy'n destun dyletswydd digartrefedd ofyn

⁵⁴ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol, tudalen 109.

⁵⁵ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol, tudalennau 131-132.

⁵⁶ Llywodraeth Cymru. Memorandwm Esboniadol, tudalen 133.

⁵⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025.

am adolygiad. Mae'n disgrifio hyn fel “amcangyfrif cymharol uchel” ond yn dweud nad oes “unrhyw ddata cadarn y gallwn raddio amcangyfrifon ar gyfer mwy o geisiadau am adolygiadau”.⁵⁸

64. Mae Llywodraeth Cymru yn tybio y byddai'r adolygiad yn cymryd 3.5 awr i uwch swyddog ei gwblhau, ar gost flynyddol amcangyfrifedig o £997,000 o 2027-28 ymlaen. Mae hyn yn cynrychioli 5,578 o adolygiadau ychwanegol ar gost o £178.75 yr adolygiad.⁵⁹

65. Can fynd i'r afael â'r dybiaeth y gall 25 y cant o ymgeiswyr sy'n destun dyletswydd digartrefedd ofyn am adolygiad, nododd gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn casglu data ar geisiadau am adolygiadau ac nad yw'r llysoedd yn cyhoeddi ystadegau ar apeliadau sy'n ymwneud â digartrefedd:

“Can fod y Bil yn darparu mwy o gyfleoedd i ofyn am adolygiad a bydd ymgeiswyr yn cael gofyn am fwy nag un adolygiad yn ystod eu profiad â'r gwasanaeth, rydym wedi dewis defnyddio amcangyfrif cymharol uchel o 25% fel sail ar gyfer y gost bosibl. Y rheswm dros y gor-amcangyfrif posibl hwn yw lleihau'r risg o dan-gostio'r diwygiadau. Rydym yn deall y gallai awdurdodau lleol geisio datrys pryderon y tu allan i'r broses ffurfiol, ond penderfynon ni na fyddai'n briodol tybio'r lefel hon o arfer anffurfiol. Nod cynyddu'r hawliau i ofyn am adolygiadau yw sicrhau'r ffordd symlaf bosibl o gael at gyfiawnder.”⁶⁰

Diddymu gwahaniaethau yn yr hawl sy'n gysylltiedig â digartrefedd bwriadol

66. Ar hyn o bryd, mae'r prawf ‘angen blaenoriaethol’ yn penderfynu “a yw grwpiau penodol o bobl yn cael eu hystyried yn rhai sy'n dod o dan grŵp ‘angen blaenoriaethol’, sy'n creu hawl i gymorth digartrefedd”. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r prawf bwriadoldeb i benderfynu a yw ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol. Yn ôl yr Asesiad Effaith, nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol, bellach, yn cymhwyso'r prawf anghenion blaenoriaethol, ac mae'r “ffordd y caiff y prawf bwriadoldeb ei ddehongli a'i ddefnyddio yn amrywio'n fawr ledled Cymru”.⁶¹

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 112

⁵⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 113

⁶⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025

⁶¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 119

67. Mae'r Bil yn cynnig diddymu'r profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, gan gynyddu cost darparu gwasanaethau digartrefedd gan fod y canlynol yn gymwys:

*"... bydd ar awdurdod tai lleol ddyletswydd lawn i unrhyw geisydd sy'n gymwys ac sy'n 'ddigartref', cyhyd â bod ganddynt gysylltiad lleol hefyd. Bydd hyn yn cynnwys diwallu unrhyw anghenion mewn perthynas â llety interim a pheidio â goddef digartrefedd i rai pobl mwyach."*⁶²

68. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi gwneud "tybiaeth sy'n debygol o fod yn ordybiaeth y byddai pob aelwyd sy'n cael ei hallgáu ar hyn o bryd rhag cymorth digartrefedd yn mynd i mewn i lety dros dro neu lety â chymorth". Mae'n tybio y bydd angen llety dros dro ar dri chwarter o'r aelwydydd hyn, gyda'r chwarter sy'n weddill yn defnyddio llety â chymorth. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £5.4 miliwn y flwyddyn ac yn dechrau yn 2030-31. Mae hyn yn seiliedig ar 366 o aelwydydd ychwanegol sydd â hawl i gymorth.⁶³

69. Pan ofynnwyd iddi sut y byddai capasiti'n cael ei gyflawni os bydd y gordybiaeth yn troi allan i fod yn dan-dybiaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"The data in Wales does show the low numbers in Wales in terms of those priority needs. The last full year of data that we have access to, it's around, just under, 300. And in terms of intentionality and how many that's used for, it's 100 across Wales. So, we don't envisage any significant increase in the numbers of people experiencing homelessness, and we're not aware of any data to the contrary."*⁶⁴

70. O ran amseru, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

"... we had really good engagement with local authorities throughout this whole process and they do require time for those proposed changes coming through in the Bill, and that's something that we've also said in terms of the phased approach that we want to have to this Bill—so, the preventative

⁶² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 120

⁶³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 120

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 121

services at one end, and, obviously, the removal of those tests more likely to be at the end of the Bill.”⁶⁵

Cymorth i gadw llety addas sydd wedi'i sicrhau wrth arfer swyddogaethau digartrefedd

71. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd newydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas sydd wedi'i sicrhau o dan swyddogaethau digartrefedd. Yn ôl yr Asesiad Effaith, mae data'r flwyddyn ddiwethaf yn awgrymu bod 3,357 o aelwydydd a ganfuwyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd yn y sefyllfa honno oherwydd colli llety rhent neu lety clwm.⁶⁶

72. Mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi data gan dri awdurdod lleol i nodi pa gyfran o aelwydydd sy'n ceisio cymorth oherwydd colli llety, y byddai angen cymorth tenantiaeth ychwanegol arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cymhareb o nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd i'r galw am gymorth tenantiaeth, ac yn cymhwyso'r gymhareb hon i nifer yr aelwydydd y canfyddir eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd oherwydd colli llety rhent neu lety clwm. Mae hyn yn awgrymu galw dirprwyol am gymorth tenantiaeth yng Nghymru o 19,075 o aelwydydd. Mae'n tybio, wedyn, bod angen cymorth ychwanegol ar 10 y cant o'r aelwydydd hynny o dan y ddyletswydd arfaethedig. Gan ddefnyddio cost flynyddol gyfartalog cymorth tenantiaeth fesul tenant (£4,092), amcangyfrifir bod cyfanswm y gost flynyddol gylchol yn £7.8 miliwn, o 2027-28 ymlaen.⁶⁷

73. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a yw hi wedi ymrwymo i ariannu'r gost flynyddol lawn o £7.8 miliwn, a beth fydd yn digwydd gyda chyllid y costau hyn yn dilyn y blynyddoedd cychwynnol o weithredu. Wth ymateb, nododd fel a ganlyn:

“Bydd cyllidebau'r dyfodol yn fater i Lywodraethau'r dyfodol. Er hynny, rwy'n cydnabod, fel y dywed yr RIA, bod angen buddsoddiad cychwynnol i helpu i roi'r Bil ar waith, gan gynnwys y ddyletswydd newydd i helpu i gadw llety addas. Mae helpu person i gadw ei lety yn fath pwysig o atal digartrefedd, yn enwedig mewn perthynas â digartrefedd ailadroddus. Mae'r ddyletswydd newydd yn bwysig i awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi ymgeiswyr ar gyfer tai tymor hir a hefyd i ddarparwyr tai cymdeithasol wrth iddynt baratoi i gefnogi deiliaid contractau

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 121

⁶⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 127

⁶⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 127

meddiannaeth. Mae'r RIA yn nodi bod costau'r ddyletswydd cadw yn rhai rheolaidd ac yn rhan o'r nod hirdymor i fuddsoddi mewn atal yn lle buddsoddi mewn llety dros dro.”⁶⁸

Darpariaethau heb eu costio

74. Nid yw'r Asesiad Effaith yn darparu amcangyfrif cost ar gyfer rhai cynigion yn Rhan 1 o'r Bil, er enghraifft, oherwydd gallent effeithio ar nifer fach o bobl neu ffurfioli arfer presennol. Mae'r canlynol ymhlith y rheini:

- Cryfhau'r prawf cysylltiad lleol (adrannau 6 ac 11-16);
- sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal lety addas (adran 23);
- diogelu eiddo personol carcharorion (adran 26);
- sicrhau bod awdurdodau tai lleol yn cymryd camau rhesymol i roi cyfle i'r ymgeisydd weld y llety (boed yn bersonol neu fel arall) (adran 34).⁶⁹

75. Archwiliodd y Pwyllgor a oes risg bod y dull hwn yn methu â gweld effaith gronnu bosibl y newidiadau hyn ar wasanaethau. Dywedodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet:

“I think we could have added more detail in the RIA, on reflection, on this. The thinking hasn't just been, 'This isn't that very many people', it's also about using the Bill to formalise practice that is very well under way and improving practice at no additional cost. So, to take the example of viewing, viewing is standard practice across the sector; there's no suggestion in this Bill that it isn't. But, for particular groups, people in prison, people in hospital, it can be quite difficult to view properties, and in the lived-experience feedback, we heard the occasional example of, 'I was offered a property, I couldn't view it and I was told, if I refused it, that was it.' So, we just wanted to just pull that together, really, and make sure that that's not something that is—. That should be on offer to people experiencing homelessness.”⁷⁰

⁶⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, 27 Awst 2025.

⁶⁹ Lywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 124, 139, 147 a 164.

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 127

76. Esboniodd y bydd y Bil yn galluogi rhywun i weld eiddo yn bersonol neu fel arall (megis trwy fideo) a nododd na fu modd nodi ble byddai costau'n disgyn wrth gyflawni hyn yn llawn.⁷¹

Rhan 2: Dyraniad tai cymdeithasol

Cofrestr Tai Cyffredin

77. Ar hyn o bryd, mae 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin, gan gynnig "un pwynt cofrestru i geiswyr ac un rhestr o geiswyr sydd wedi'u cofrestru i gael tai cymdeithasol yn yr ardal leol". Fodd bynnag, mae cofrestri tai cyffredin yn wahanol o ran dull a fformat oherwydd diffyg manyleb reoleiddiedig.⁷²

78. Mae'r Bil yn gosod gofyniad ar awdurdodau tai lleol i sefydlu a chynnal Cofrestr Tai Cyffredin ar gyfer pobl gymwys a chymhwysol. Dim ond i'r ymgeiswyr ar y Cofrestr Tai Cyffredin y mae'n rhaid i bob darparwr tai, gan gynnwys yr awdurdod tai lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, ddyrannu eu stoc tai.⁷³

79. Amcangyfrifir bod cost sefydlu Cofrestr Tai Cyffredin yn £10,500 fesul cofrestr, sy'n cynnwys TG ac offer, amser staff a hyfforddiant. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig, felly, i sefydlu cofrestri tai cyffredin yn y tri awdurdod lleol sy'n weddill yw £31,500.⁷⁴

80. Pan ofynnwyd iddi a yw'r cofrestri tai cyffredin presennol a weithredir gan y 19 awdurdod lleol arall yn addas at y diben, ac yn niwtral o ran cost, dywedodd y swyddog a oedd yno gyda'r Ysgrifennydd Cabinet:

*"The way that we have drafted the Bill is to try to account for the different types of common housing register that already exist. So, there are fully integrated, partially integrated, choice-based lettings, nominations. They could all continue, we think, under this drafting, but it pulls together those two big policy aims that help the applicant at one end of the system and gives clarity to all partners about what accommodation is being allocated."*⁷⁵

⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 128

⁷² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 171

⁷³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 172

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 173

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 161

81. Cwestiynodd y Pwyllgor a fyddai dull mwy safonol o gofrestri tai cymdeithasol yn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y data. Esboniodd y swyddog a oedd yno gyda'r Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

*"... our working understanding of how common housing registers work now is that they do hold quite a lot of data. The regs-making power we've included in the Bill gives Ministers powers to call in some of that information but also make requirements around what information is covered."*⁷⁶

Costau gweithredu cysylltiedig

82. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi costau a chamau gweithredu cysylltiedig eraill.

83. Bydd y Cod Canllawiau presennol yn cael ei dynnu'n ôl, a bydd canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi i gefnogi'r Bil, a fydd yn cael eu datblygu ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Amcangyfrifir bod y gost sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau, ar draws cyrff, yn £104,200, yr eir iddo yn 2026-27.⁷⁷

84. Mae'r Asesiad Effaith, hefyd, yn nodi'r ddarpariaeth hyfforddi i awdurdodau tai lleol i gefnogi gweithredu'r Bil. Mae hyn yn cynnwys costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru o £33,900 i ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant, a gafwyd yn 2026-27. Y gost cyfle i staff awdurdodau lleol fynd i ddau ddiwrnod o hyfforddiant yw £132,000.⁷⁸

85. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tynnu sylw at weithgareddau cyn gweithredu i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y diwygiadau, er y bydd pa faint o gynllunio yn amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'n nodi rhagdybiaeth eang ynghylch y gofyniad, gan amcangyfrif dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn i gefnogi gweithgareddau cynllunio cyn eu gweithredu, fesul awdurdod lleol. Amcangyfrifir y bydd y gost untro yn £2.2 miliwn yn 2026-27.⁷⁹

86. Pan ofynnwyd iddi a fyddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer y ddwy swydd hyn, dywedodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet:

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 177

⁷⁷ [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 175](#)

⁷⁸ [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177](#)

⁷⁹ [Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 177](#)

*"It is additional funding. The aim of those transitional posts is to prepare and manage the transition from the legislation we have now to the legislation of the future."*⁸⁰

Barn y Pwyllgor

87. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau ychwanegol a fydd yn syrthio ar awdurdodau lleol a'r capasiti ychwanegol sydd ei angen o fewn awdurdodau lleol i gyflawni amcanion y Bil. Rydym yn cydnabod bod darparu Cynlluniau Atal, Cymorth a Llety i unrhyw un sy'n destun dyletswydd digartrefedd yn cynrychioli newid sylweddol i arferion gwaith presennol, ac y bydd angen 64.7 o staff cyfwerth ag amser llawn ychwanegol ar gyfanswm cost o £3.1 miliwn i awdurdodau lleol. Rydym, hefyd, yn nodi y bydd angen dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn ychwanegol ar bob awdurdod lleol i gefnogi gweithgareddau cynllunio cyn eu gweithredu (am gost untro amcangyfrifedig o £2.2 miliwn yn 2026-27). Dywedwyd wrthym fod rhai awdurdodau lleol eisoes yn ailstrwythuro wrth ragweld y Bil a'r newid mewn ffocws ar atal. Er ein bod yn croesawu'r paratoad hwn, hoffai'r Pwyllgor ddeall mwy am y gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill o fewn awdurdodau lleol a'r costau cysylltiedig.

88. Clywsom fod cost sefydlu a chynnal Cofrestri Tai Cyffredin yn cael ei amcangyfrif yn £10,500 i bob un o'r tri awdurdod lleol sydd heb gofrestrau ar hyn o bryd, heb unrhyw gostau i'r awdurdodau lleol hynny sydd eisoes yn gweithredu cofrestrau. Rydym yn croesawu'r sicrwydd y bydd y pŵer perthnasol i wneud rheoliadau yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gwybodaeth safonol i'w chynnwys mewn Cofrestri Tai Cyffredin, a ddylai fynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â bylchau data tai cymdeithasol presennol.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion gweithgareddau ailstrwythuro sydd eisoes ar y gweill mewn rhai awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer gweithredu'r Bil, gan gynnwys y costau sydd eisoes wedi'u hysgwyddo, ac yn cadarnhau a yw'r costau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Argymhelliad 5. Mewn perthynas â Chofrestri Tai Cyffredin, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflawni'r canlynol:

⁸⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 164

- Cytuno ar y wybodaeth safonol i'w chynnwys ym mhob cofrestr a nodi unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gesglir ar hyn o bryd gan gofrestrau presennol, a hefyd
- cadarnhau a yw'r gofyniad i gynnal Cofrestr Tai Cyffredin yn parhau i fod yn niwtral o ran cost i'r awdurdodau lleol hynny sy'n gweithredu cofrestrau ar hyn o bryd.

4. Adolygiad ar ôl gweithredu

89. Yn ôl pennod adolygiad ar ôl gweithredu'r Asesiad Effaith, bydd ymchwil sy'n rhagflaenu'r Bil yn sail i ymgysylltiad parhaus wrth i'r diwygiadau gael eu gweithredu, gydag "asesiad parhaus o sut mae'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith ac wedi cyflawni'r bwriad polisi".⁸¹

90. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o effaith y Bil. Ochr yn ochr â'r gwerthusiad, bydd Llywodraeth Cymru, hefyd, yn "ystyried i ba raddau y mae gweithredu'r Bil yn cynorthwyo i gyflawni'r camau perthnasol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd."⁸²

91. Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i adolygu cyflwr a defnydd llety dros dro yn rheolaidd.⁸³

92. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd, hefyd, yn ymgysylltu â phartneriaid cyflawni a'r rheini sydd â phrofiad personol i ystyried y gweithrediad.⁸⁴

93. O ran monitro'r costau a'r manteision sylweddol a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"... we're also going to consider the actual costs and benefits as part of the post-implementation review and our ongoing evaluation work, which I think will be really key to achieving the aims and ambitions that we have within this Bill."*⁸⁵

Barn y Pwyllgor

94. Mae'r Pwyllgor yn ategu ei farn ei bod yn arfer da cynnwys adolygiad ôl-gweithredu cadarn, gan helpu i sicrhau bod amcanion deddfwriaeth yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a dangos y cyflawnwyd gwerth am arian. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd a lled y costau amcangyfrifedig, ac arwyddocâd y newidiadau a gynigir yn y Bil. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried y costau a'r manteision gwirioneddol fel rhan o'r adolygiad ar ôl gweithredu, ac yn annog Llywodraeth Cymru i sefydlu mecanweithiau clir i fonitro'r newid yn effeithiol.

⁸¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 206

⁸² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 207

⁸³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 207

⁸⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 207

⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Mehefin 2025, paragraff 181

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro ei dull o fonitro ac adolygu gweithrediad Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), gan gynnwys yr amserlenni arfaethedig.